# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD 2019 - 2025

Crynodeb Gweithredol

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Diffinnir rheolaeth ar asedau Priffordd fel:

“Dull strategol sy’n nodi’r dyraniad gorau posibl o adnoddau ar gyfer rheoli, gweithredu, cadw a gwella’r seilwaith priffyrdd er mwyn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol”[1]

Mae mabwysiadu dull rheolaeth ar asedau yn cael ei ystyried nawr gan Lywodraeth Cymru fel dull profedig o ddangos darbodaeth effeithiol o’r rhwydwaith priffyrdd trwy ddarparu dealltwriaeth ariannol sylweddol.[2] Mae’r strategaeth yma’n cofnodi ac yn adrodd sut fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn mabwysiadu ac yn defnyddio’r egwyddorion yma i reoli asedau priffyrdd cyhoeddus.

Mae’r Strategaeth yma’n ymrwymo Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i:

a. Safonau Fforddiadwy; mae’r strategaeth yn sefydlu safonau sy’n fforddiadwy o fewn cyllidebau presennol ac yn eu cyfleu i’r cyhoedd a defnyddwyr eraill fel eu bod yn gwybod beth i’w ddisgwyl.

b. Cynllunio Tymor Hir; mae’r strategaeth yn galluogi’r cyfnodau tymor canolig (10 mlynedd) a thymor hir (20 mlynedd) i sicrhau’r cydbwysedd cywir o drwsiadau tymor byr, camau ataliol a newid asedau hynafol.

c. Dyraniad Cyllidebol; mae’r strategaeth yn gofyn bod data’n cael ei gasglu ynglŷn ag asedau’r briffordd a fydd yn galluogi penderfyniadau gwybodus i gael eu gwneud ynglŷn â sut i wario’r arian sydd ar gael yn y ffordd orau.

d. Rheoli Risg; mae’r strategaeth yn gofyn am ddadansoddiad o ddata asedau i fesur a rheoli’r risg sydd ynghlwm ag unrhyw benderfyniadau sy’n codi o’r strategaeth.

1.2 Bydd gweithredu’r strategaeth yn cefnogi:

1. Cyflwyno Cyfrifon Llywodraeth Gyfan ac yn benodol Cod Asedau Trafnidiaeth Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) .

2. Dymuniad parhaus Llywodraeth Cymru i weld Awdurdodau'n defnyddio rheoli asedau ar gyfer priffyrdd, sylweddoli a dangos y buddion cysylltiedig o ran costau a llywodraeth dryloyw o'r asedau sy'n gysylltiedig â rhwydwaith y priffyrdd.

3. Yr angen i reoli pwysau cynyddol ar y gyllideb o ganlyniad i'r sefyllfa ariannol genedlaethol a lleol.

4. Yr amcanion yng Nghynllun Corfforaethol 3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2016-2021 - 'Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan gynnwys cynnal a chadw seilwaith priffyrdd a lleihau defnydd o ynni a gwastraff,' - mae hyn yn tybio'r gofyniad o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 i gynnal a chadw'r briffordd mewn cyflwr diogel ar gyfer defnyddwyr, a hefyd yn adlewyrchu'r ysfa i reoli'r ased yn economaidd ac yn ecolegol neu amgylcheddol.

1.3 Mae amrediad y briffordd a fabwysiadwyd yn cael ei ddal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ac ased y briffordd yw unrhyw strwythur, system, adeiladwaith neu dir sy'n gysylltiedig â'r briffordd a fabwysiadwyd.

Yn Ebrill 2018, mae gan y Cyngor, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod Priffordd, asedau'n cynnwys y prif grwpiau asedau canlynol:

A. 442 cilomedr o briffordd,

B. 633 cilomedr o droedffordd,

C. 173 o bontydd a 12 ohonyn nhw â chyfyngder o ran pwysau ar hyn o bryd,

D. 109 o geuffosydd â diamedr rhwng 0.8m a 1.5m, 27 o isffyrdd

E. 13601 o oleuadau stryd, gyda 7062 o'r rheiny wedi eu goleuo'n llawn,4697 yn cael eu goleuo rhwng y cyfnos a hanner nos ac yna 05:00 a.m. a'r wawr, a 1842 ddim yn cael eu goleuo ar hyn o bryd,

F. 47 set o oleuadau traffig (gan gynnwys croesfannau Pelican, Puffin a Toucan),

G. 1342 o arwyddion traffig wedi eu goleuo a bolardiau,

H. Tua 5000 o arwyddion traffig nad ydynt yn cael eu goleuo. Serch hynny ystyrir nad yw arolwg o'r rhain yn effeithiol o ran cost ar hyn o bryd, ond bydd yn rhan o'r gwelliannau sy'n cael eu hystyried gan y Cynllun yma.

.

I. 17300 o geuffosydd,

J. Tua 350 cilomedr o bibellau traenio'r briffordd. Serch hynny ystyrir nad yw arolwg o'r rhain yn effeithiol o ran cost ar hyn o bryd, ond bydd yn rhan o'r gwelliannau sy'n cael eu hystyried gan y Cynllun yma.

**Noder:** Mae'r Cynllun yn ymwneud â rhwymedigaethau'r Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd yn unig ac felly ond yn cynnwys yr asedau hynny ar y briffordd a fabwysiadwyd. Nid yw strydoedd preifat a heolydd a gafodd eu trosglwyddo i landlordiaid cymdeithasol yn cael eu cynnwys. Mae amrediad y briffordd a fabwysiadwyd ar gael ar wefan y Cyngor.

1.4 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fel tirfeddiannwr yn gyfrifol am asedau nad sydd yn y dosbarth o briffordd a fabwysiadwyd, fel strydoedd a throedffyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor a bydd yn cynnal a chadw'r rhain mewn cyflwr diogel, yn ôl gofal y ddeddfwriaeth neu gynsail barnwrol, serch hynny, gall hyn fod o dan lefel y gwasanaeth a roddir i'r rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd.

1.5 Mae ychwanegiadau i'r ased o ganlyniad i adeiladu newydd yn Nhorfaen wedi bod yn gymharol fach ers 2003 gyda hyd y rhwydwaith yn cynyddu o 427.5 cilomedr i 441.9 cilomedr yn 2018, serch hynny mae nifer o ddatblygiadau mawr ar droed yn ystod y 5 mlynedd nesaf a fydd yn arwain at ychwanegiadau sylweddol i asedau'r briffordd. Ar wahân i gelfi'r stryd ac arwyddion stryd nad ydynt wedi eu goleuo, mae data'n dda ar gyfer yr holl gategorïau ac nid oes disgwyl i hyn gael effaith fawr ar asedau'r priffyrdd ar y cyfan.

1.6 Mae Cynllun Datblygu Lleol presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn dweud fod disgwyl i rwydwaith y briffordd gynyddu 2 – 4% ychwanegol dros gyfnod y Cynllun. Mae Adran Blaengynllunio CBST yn diweddaru'r CDLl gyda'r diweddariad yma a disgwylir y bydd twf yn y rhwydwaith yn gymesur â'r blaenamcanion presennol.

1.7 Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cwblhau arolygon er mwyn nodi'r cyfanswm milltiroedd y mae cerbydau'n teithio yn ôl math a rhanbarth; mae'r rhain wedyn yn cael eu hallosod gan ddefnyddio ffactorau twf hysbys er mwyn roi ffigyrau ar gyfer pob categori am gyfnodau o bum mlynedd. Mae'r Rhagolwg Trafnidiaeth Ffordd 2011 yn adrodd dim ond am gyfanswm y milltiroedd sy'n

cael eu gyrru yng Nghymru, serch hynny, ar sail y cynnydd bach yn hyd y rhwydwaith, gellir rhagdybio perthynas ddefnyddiol rhwng unrhyw nifer ychwanegol o filltiroedd a defnydd o'r briffordd.

1.8 Gan fod gan ased y priffyrdd y Gost Ailosod Gros fwyaf o unrhyw ased y mae CBST yn ei reoli, yna bydd unrhyw cynnydd mewn dirywiad oherwydd cynnydd mewn defnydd gan draffig yn cael effaith sylweddol ar y Cynllun. Yr arolwg presennol ar gyfer pob math o draffig yn y categorïau 'Trefol Arall' a 'Gwledig' (y rheiny sy'n cyd-fynd â phroffil rhwydwaith Torfaen) yw:

Amcangyfrifon Traffig Ffordd yr Adran Drafnidiaeth – Cymru (biliwn o filltiroedd)

| | 2010 | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| Car | 12.3 | 12.4 | 13.7 | 14.6 | 15.4 |
| Cerbyd Nwyddau Ysgafn | 2.2 | 2.6 | 3.0 | 3.5 | 3.9 |
| Cerbyd Nwyddau Trwm Anhyblyg | 0.5 | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.6 |
| Cerbyd Nwyddau Trwm Cymalog | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 0.3 |
| Cerbyd Gwasanaeth Teithwyr | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Pob Traffig | 15.3 | 15.9 | 17.6 | 19.1 | 20.3 |
| % Cynnydd | Gwaelodlin | 3.92% | 15.03% | 24.84% | 32.68% |

1.9 Felly gellid dadlau gan y bydd tua 15% yn fwy o filltiroedd yn cael eu cwblhau gan gerbydau yn Nhorfaen erbyn 2020, bydd cynnydd gysylltiedig yn nirywiad y briffyrdd h.y. mwy o dyllau, mwy o gilomedrau o'r ffordd yn cwympo o dan y safon dderbyniol ar gyfer cynnal a chadw.

1.10 Mae pob ymholiad neu gwyn gan y cyhoedd sy'n ymwneud â phriffyrdd yn cael ei drin naill ai gan ganolfan alwadau cwsmeriaid y Cyngor neu'r Adran Gyfathrebu Corfforaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau try'r ffôn, e-bost neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb, ac yn cael eu cofnodi a'r mewnosod i gronfa ddata (Mayrise ar hyn o bryd), ac mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo'n electronig i'r adrannau a'r swyddogion perthnasol ar gyfer gweithredu neu sylwadau. Mae'r llif wybodaeth yma'n cael ei ddadansoddi er mwyn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau o fewn targedau'r cyngor ar gyfer ymdrin ag ymadweithiadau o'r fath yma.

1.11 Fel rhan o'r broses o reoli ased y briffordd, bydd CBST yn ymgynghori a'r cyhoedd ar faterion cyffredinol yn ymwneud â phriffyrdd trwy'r adran 'Your Say' ar wefan y Cyngor. Argymhellir fod hyn yn digwydd pob dwy flynedd o 2013/14. Bydd yr arolwg yn gofyn yr un cwestiynau fel bod modd asesu tueddiadau a chyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid.